

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndwr a gynhaliwyd **Ddydd Gwener, 1 Hydref 2021** am 9.00am yn Ystafell B103, Prifysgol Glyndwr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wreccsam LL11 2AW.

**Presennol**

Jim Barclay  
 Paul Barlow  
 Martin Chambers  
 Colin Heron  
 Yr Athro Maria Hinfelaar  
 Lauren Hole  
 Claire Homard  
 Celia Jenkins  
 Sally Lambah  
 Diane McCarthy  
 Judy Owen  
 Maxine Penlington (Cadeirydd)  
 Amy Rowley  
 Askar Sheibani  
 David Sprake  
 Richard Thomas  
 Maureen Wain

**Swyddogion:**

Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd*)  
 David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*)  
 Dr Aulay Mackenzie (*PVC Partnerships*) [*Eitemau 21.01 i 21.11 yn unig*]  
 Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)  
 Yr Athro Claire Taylor (*Dirprwy Is-Ganghellor*)  
 James Dawson (*Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr*) [*Eitem 21.24 yn unig*]

**Hefyd yn bresennol:** Aaron Porter (*Arsylwr o sefydliad Advance HE*)

**Ymddiheuriadau:**

Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)  
 Yr Athro Sandra Jowett  
 Paul McGrady  
 David Subacchi

<b>21.01</b>	<b>Croeso ac ymddiheuriadau</b>	
	<p>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. Croesawyd llywodraethwyr newydd i'w cyfarfod cyntaf.</p> <p>Croesawyd Aaron Porter o Advance HE fel arsylwr yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd.</p>	
<b>21.02</b>	<b>Datgan buddiannau</b>	
	Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau ag unrhyw eitem ar yr agenda.	
<b>21.03</b>	<b>Gweithredu trwy gylchrediad</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad ar y gweithredu a wnaed trwy gylchrediad fel mater o gofnodi hynny.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	

<b>21.04</b>	<b>Aelodaeth</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Diweddariad ynghylch yr aelodaeth a chynnig i benodi aelodau newydd i Bwyllgorau.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Darparwyd diweddariad ynghylch penodi Cadeirydd newydd a'r broses gyfweld. Byddai'r broses yn cynnwys taith o amgylch y campws a thrafodaeth anffurfiol gyda chriw bach o lywodraethwyr, yn cynnwys yr Is-Ganghellor, cyn cyfweiliad ffurfio. Cadarnhawyd mai aelodau'r panel cyfweld fyddai Paul Barlow, Judy Owen, Yr Athro Sandra Jowett a Dr Emyr Roberts fel aelod allanol.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p> <p>CYMERADWYO penodi Diane McCarthy, Maureen Wain, Richard Thomas a'r Athro Martin Chambers i Bwyllgorau'r Bwrdd fel y cynigiwyd.</p>	
<b>21.05</b>	<b>Cofnodion</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 ac 16 Gorffennaf 2021.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir y cyfarfod, yn ddarostyngedig i gywiro dyddiad y cofnodion cyfrinachol.</p>	
<b>21.06</b>	<b>Materion yn codi</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Adroddodd yr Is-Ganghellor ei bod hi wedi cynghori Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ynghylch cynlluniau'r Brifysgol am gampws ym Manceinion gyda darparwyd preifat wedi ymsefydlu. Yn dilyn hynny roedd CCAUC wedi gofyn am eglurhad ynghylch nifer o bwyntiau'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy, a darparwyd ymateb.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.07</b>	<b>Adroddiad yr Is-Ganghellor</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Ymateb yr Is-Ganghellor i adroddiad effaith blynyddol yr Undeb Myfyrwyr.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Yn sgîl y drafodaeth arwyddocaol ynghylch yr amgylchedd allanol a'r cyfleoedd a'r heriau strategol yn y sesiwn strategaeth y diwrnod blaenorol, roedd diweddariad yr Is-Ganghellor yn canolbwyntio ar ymateb i adroddiad effaith yr Undeb Myfyrwyr.</p> <p>Cymeradwywyd y fformat tryloyw a darllenadwy ynghyd ag ymdrechion yr Undeb Myfyrwyr i estyn allan at yr holl garfanau myfyrwyr, yn cynnwys y rhai mewn sefydliadau partner. Anogwyd yr Undeb Myfyrwyr i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio yn eu prosesau democrataidd a'r ymateb oedd eu bod yn parhau i weithio ar hyn. Rhagwelwyd y byddai'r cymhorthydd cyfryngau cymdeithasol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu ymgysylltu gydag ac ennyn diddordeb myfyrwyr.</p> <p>Roedd y digwyddiad Neuadd y Dref Rhithiol yn cynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol o'r holl bleidiau yn llwyddiant arwyddocaol. Byddai cais yr Undeb Myfyrwyr i gael</p>	

	<p>eu cynnwys a'u briffio gan y rheolwyr ynghylch datblygiadau allweddol y Brifysgol yn parhau, a byddai cymorth i gynhyrchu pecynnau cynefino ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn cael ei drin trwy'r sianelau arferol dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI Adroddiad yr Is-Ganghellor.</p>	
<b>21.08</b>	<b>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr Medi 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Tynnodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr sylw at yr Wythnos Groeso a Ffair y Glas llywyddiannus ar y campws ochr yn ochr â digwyddiadau digidol a gynigiwyd. Roedd yr holl ddigwyddiadau wyneb yn wyneb wedi'u ffrydio'n fyw ar-lein hefyd.</p> <p>Roedd rhai newidiadau trefniadaeth wedi arwain at benodi Marc Caldecott yn Bennaeth Gwasanaethau Aelodaeth i ddarparu cymorth mwy strwythuredig i feysydd chwaraeon, cymdeithasau, cyngor a chynrychiolaeth y tîm Undeb Myfyrwyr ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau cynrychiolaeth a democratiaeth. Byddai'r Pennaeth Aelodaeth yn gweithredu fel Dirprwy Brif Weithredwr hefyd pan fo angen.</p> <p>Byddai Llywydd yr Undeb Myfyrwyr yn parhau i weithredu ei addewidion manifesto gyda chymorth gan Dîm yr Undeb Myfyrwyr. Cynigiwyd cymorth Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor ar sail 1:1 i gynorthwyo'r swyddogion sabothol mewn unrhyw feysydd lle nodwyd bod angen eu datblygu.</p> <p>Croesawodd y Bwrdd gyfraniad ac adborth gan y myfyrwyr lywodraethwyr.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiadau.</p>	
<b>21.09</b>	<b>Alldro a ragfynegir 2020/21</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Sefyllfa alldro a ragfynegir ar gyfer Grŵp y Brifysgol 2020/21.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnodd sylw at y sefyllfa alldro a ragfynegir, gyda gwarged gweithredol o £2,535k a gwarged net £1.814k, yn ddarostyngedig i archwilio allanol. Byddai cyflawni chweched blwyddyn o warged yn cynorthwyo wrth geisio ailgyllido benthyciad tymor penodol y Brifysgol yn 2022. Cydnabuwyd fod y Gronfa Buddsoddi yn Adferiad Addysg Uwch wedi cyfrannu at y perfformiad ariannol cadarnhaol, gan alluogi'r Brifysgol i fuddsoddi yn ei champysau a phrofiad myfyrwyr, yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol i fyfyrwyr.</p> <p>Amlinellwyd y rhesymau am yr amrywiadau rhwng yr alldro drafft a'r rhagfynegiad ym Mehefin 2021. Roedd hyn yn cynnwys incwm ychwanegol o Addysg Drawswladol a rhyngwladol, darpariaeth ôl-raddedig a chadw rheolaeth llym ar gostau ac eithrio tâl. Bellach roedd amhariad is o ran Neuadd Corbishley, Llaneurgain. Roedd hyn yn dilyn prisiad annibynnol wnaeth ystyried defnydd y lolfâ llawr gwaelod at ddibenion eraill, er gwaethaf cau gweddill y neuadd breswyl.</p> <p>Effeithiwyd ar gostau staffio trwy symudiadau mewn cyfraniadau pensiwn ac addasiadau cyfrifyddu yn cynnwys costau gwasanaeth cyfredol y Cynllun Pensiwn</p>	

	<p>Llywodraeth Leol, yn dilyn adolygiad actiwariaid, a phenderfyniad fod angen i'r Brifysgol dalu mwy i fodloni atebolrwyddau prisio cyfredol y cynllun.</p> <p>Roedd costau dyledion drwg yn uwch oherwydd llai o adfer dyledion yn ystod y flwyddyn a effeithiwyd gan gynnydd mewn dyledion myfyrwyr a dyledion gan gwmnïau llai. Roedd hyn yn adlewyrchu effeithiau pandemig Covid-19 ar yr amgylchedd economaidd. Roedd y Swyddfa Ryngwladol yn gweithio efo Cyllid ar adfer dyledion myfyrwyr rhyngwladol, gan nodi fod comisiwn asiantau recriwtio rhyngwladol yn cael ei dalu'n unig pan fo'r Brifysgol yn derbyn taliad gan y myfyrwyr ar adeg cofrestru.</p> <p>Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i'r Tîm Cyllid am adroddiad clir a nododd, tra bo'r angen i ddychwelyd cyllid credydau rhan amser rhannol i CCAUC yn siomedig, roedd cynlluniau'n bodoli i gyflawni'r dyraniad llawn yn 2021/22.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.10</b>	<b>Ailgyllido Benthyciad Tymor Penodol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) Adroddiad ar estyniad i'r benthyciad AIB</li> <li>(ii) Penawdau'r Telerau</li> <li>(iii) Llythyr cyngor gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid i'r Bwrdd</li> <li>(iv) Cofnodion ystyriaethau cyfarfodydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ynghylch y dewisiadau ailgyllido'r benthyciad.</li> </ul> <p><b>Adroddwyd:</b></p> <p><b>21.10.01 Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2019/20</b> Cynghorwyd yr aelodau, ar sail derbyn estyniad un flwyddyn benthyciad AIB a'r cyfalaf a dderbyniwyd o werthu safleoedd y Chwarter Gogleddol a Gatewen, roedd KMPG wedi cymeradwyo a llofnodi adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol 2019/20. Bellach roedd datganiadau ariannol y Grŵp wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau a byddai cyfrifon yr is-gwmnïau'n cael eu cyflwyno yn dilyn cyfarfod y Bwrdd, gan ymestyn y terfynau amser cyflwyno'r adroddiadau.</p> <p><b>21.10.02 Benthyciad Tymor Penodol</b> Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at delerau masnachol y benthyciad a nododd fod y cyfamodau'n gysylltiedig â'r estyniad tymor penodol yn unol â chyfamodau sy'n bodoli eisoes ac y gellid cydymffurfio â nhw. Gofynnwyd am sicrwydd ychwanegol i fodloni cymhareb gwerth sicrwydd yng nghyswllt swm y benthyciad AIB. Yn flaenorol roedd gan AIB arwystl ar y Chwarter Gogleddol wedi'i amnewid yn awr am sicrwydd wedi'i gefnogi gan arian parod yn defnyddio'r elw o werthu'r safleoedd, fodd bynnag, roedd arwystl pellach ar gampws Plas Coch yn ofyniad ychwanegol. Byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth CCAUC ynghylch yr arwystl sicrwydd hwn. Hysbyswyd CCAUC am y gofyniad potensial hwn ac roedd wedi cynghori'n flaenorol y byddai'n rhoi cymeradwyaeth.</p> <p>Bu'r aelodau'n ystyried mater yn addewid negyddol a chadarnhawyd fod cyllid ar gyfer prosiectau Campws 2025 wedi'u heithrio o'r addewid negyddol.</p> <p>Nid oedd rhagolygon y Brifysgol yn sicrhau benthyciad tymor penodol newydd yn 2022 yn anhysbys, ond tybiwyd eu bod yn well nag yn flaenorol o gofio'r chwe mlynedd o gynhyrchu gwarged a'r sefyllfa arian parod cyfredol yn well, ynghyd â gwelliant cyffredinol yn y rhagfynegiadau economaidd ers y cyhoeddwyd y Cais am Gynnig diwethaf. Cynhaliwyd trafodaethau gyda dau fanc, ond bwriadwyd ymchwilio i'r farchnad ehangach hefyd. Y pryder bach oedd bod rhai sefydliadau</p>	

	<p>benthycya yn rhoi pwyslais arwyddocaol ar niferoedd yr israddedigion o'r Deyrnas Unedig, nad oeddynt ar y lefelau yn y gyllideb.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> DERBYNIODD ac YSTYRIODD y Bwrdd delerau'r estyniad i'r benthyciad:</p> <p>(i) Penawdau'r Telerau (ii) Yr argymhelliad yn deillio o'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ar 24 Medi 2021 a oedd wedi ystyried y dewisiadau cyllido yng nghyswllt yr estyniad i'r benthyciad.</p> <p>Ar sail yr wybodaeth a'r cyngor ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y Brifysgol ac archwilio'r cyfamodau yn y Cytundeb Cyfleusterau a'r trafodion ymhlyg, a'r risg cysylltiedig, roedd y Bwrdd yn fodlon:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod telerau'r estyniad i'r benthyciad y gorau y gellir eu cyflawni'n rhesymol gan y Brifysgol;</li> <li>• bod telerau'r estyniad i'r benthyciad yn cynrychioli lefel risg derbyniol o bersbectif y Bwrdd;</li> <li>• bod y gofynion sicrwydd gan y benthycwr yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ arwystl ar Bentref Myfyrwyr Wreccsam</li> <li>○ cadw'r elw o werthu'r Chwarter Gogleddol</li> <li>○ dyleddeb sicrwydd ar gampws Plas Coch</li> </ul> </li> </ul> <p>yn cynrychioli sefyllfa dderbyniol o gofio gofynion y benthycwr.</p> <p><b>CYMERADWYODD y Bwrdd</b></p> <p>(i) ymrwymo i estyniad blwyddyn y cyfleuster benthyciad tymor penodol £10,000,000 rhwng y Brifysgol fel y sefydliad benthycya ac AIB Group (UK) fel y benthycwr. Pwrpas y benthyciad oedd cyllido Pentref Myfyrwyr Wreccsam yn 2018;</p> <p>(ii) y costau'n gysylltiedig ag estyniad y benthyciad AIB sef £26,250k + Treth ar Werth a ffioedd cyfreithiol; a</p> <p>(iii) bod Cadeirydd y Bwrdd yn llofnodi ac yn selio'r Cyfleuster ac unrhyw Gytundeb arall yng nghyswllt estyniad y benthyciad i 23 Awst 2022, ar y cyd ag ail Ymddiriedolwr y Brifysgol.</p>	
21.11	<b>Campws 2025</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Diweddariad Campws 2025.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Yn dilyn gwerthu safleoedd y Chwarter Gogleddol a Gatewen yn ddiweddar, roedd safle Ffordd y Deon yn cael ei farchnata yn awr. Rhoddwyd trwydded i ddau ddatblygwr gynnal gwaith tir archwiliol ar y safle.</p> <p>Darparwyd y cefndir i'r amod cynllunio yn ymwneud â gwaith priffyrdd yng nghyffordd Lôn Crispin/Ffordd yr Wyddgrug. Tra bo'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i sicrhau diogelwch priffyrdd yn y gyffordd hon, roedd pryder y byddai Partneriaeth Porth Wreccsam, sy'n gynllun sylweddol yn ardal Lôn Crispin, yn arwain at waith ffyrdd a drefnwyd gan y Brifysgol yn cael ei dyllu a'i ailwneud. Nid oedd y costau arwyddocaol yn gysylltiedig â symud cyfleustodau, yn enwedig y rhai'n gysylltiedig â BT Openreach, i wyro ac ail-lwybro ceblau telegyfathrebu a ffibr, yn cael eu hystyried fel y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus pan na fyddai'r gwaith yn aros yno'n barhaol. Yn ychwanegol, byddai'n creu tarfu sylweddol i drigolion a busnesau lleol wrth i waith ar y gyffordd gael ei gynnal gan y Brifysgol ac yna eto fel rhan o gynlluniau Partneriaeth Porth Wreccsam.</p>	

	<p>Nodwyd y byddai'r gwaith gwella'r gyffordd yn cael ei gyflawni fel rhan annatod o gynigion cynllun meistr Partneriaeth Porth Wrecsam, sy'n cynllun adfywio penodol gyda chyllid wedi'i ymrwymo iddo. Roedd y Brifysgol yn parhau i fod yn gyfrannwr allweddol i'r Bartneriaeth a'r nod oedd integreiddio ei chynlluniau gyda rhai'r Bartneriaeth maes o law.</p> <p>Roedd ymgynghorydd cynllunio'r Brifysgol yn cyflwyno cais i adran gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i waredu'r amod.</p> <p>Amlinellwyd y gofynion yn gysylltiedig â'r Chwarter Addysg, Iechyd ac Arloesi, yn cynnwys cyfleusterau arbenigol ac efelychu a, phe baent yn cael eu mabwysiadu fel rhan o strategaeth Campws 2025, byddent yn brosiect blaenoriaeth. Byddai'r achos busnes ar gyfer yr adnewyddu ac adeiladu o'r newydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd maes o law. Yn ystod y 12 mis nesaf byddai'r gwariant ar y prosiect hwn yn gysylltiedig â ffoedd dylunio a chais cynllunio yn unig.</p> <p>Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid byddai'r cynllun cyllid a'r amserlen datblygu graddol yn cael eu diweddarau i gynnwys y prosiect Chwarter Addysg, Iechyd ac Arloesi, a dangos y prosiectau wedi'u cwblhau, y prosiectau blaenoriaeth a'r rhai a symudwyd i lawr y rhestr flaenoriaeth yn glir. Byddai hyn yn cael ei rannu maes o law.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b></p> <p>NODI'R adroddiad.</p> <p>CYMERADWYO cynnwys y Chwarter Addysg, Iechyd ac Arloesi yn y rhestr prosiectau a dderbynnir fel rhan o'r strategaeth gyffredinol Ystadau ac Amgylchedd Dysgu.</p>	<b>DE</b>
21.12	<b>Ymateb i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) – Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <p>(i) Ymateb y Brifysgol i CCAUC ynghylch canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a chynlluniau gweithredu cysylltiedig</p> <p>(ii) Adroddiad canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b></p> <p>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor yr adroddiad a'r cefndir i gais CCAUC. Defnyddiwyd y cynlluniau gweithredu fel teclynnau rheoli gweithredol a'u monitro gan y Timau Rheoli Cyfleusterau yn adrodd ar y cynnydd i'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd a'r Bwrdd Academiaidd.</p> <p>Eglurwyd fod boddhad cyffredinol yn gwestiwn ar ei ben ei hun yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Roedd un rhaglen yn benodol yn y Celfyddydau Cymhwysol wedi disgyn o rhwng 90 a 100% yn y pedair blynedd flaenorol i lai na 60% yn 2021. Roedd hyn yn gysylltiedig yn bennaf â'r diffyg amser ymarferol yn y stiwdio/gweithdy oherwydd pandemig Covid-19.</p> <p>Gwnaeth y Bwrdd longyfarch pawb fu'n gysylltiedig â chyflawni sgorau uwch na'r meincnod yn wyth o'r naw adran yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2021.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b></p> <p>NODI'R adroddiadau.</p>	
21.13	<b>Arolwg Deilliannau Graddedigion 2018/19</b>	

	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad sefydliadol Arolwg Deilliannau Graddedigion 2018/19.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Adroddwyd fod canlyniadau'r arolwg wedi'u defnyddio i hysbysu Strategaeth Cyflogadwyedd y Brifysgol. Nodwyd fod graddedigion Glyndŵr yn mynd ymlaen i astudiaethau pellach yn is na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig er nad oes rheswm clir pam. Gallai fod yn bosibl canfod y rhesymau am hyn trwy rwydweithiau cyn fyfyrwyr. Roedd angen ffordd fwy strwythuredig o gadw mewn cysylltiad â chyn fyfyrwyr a gallai'r Tîm Gyrfaoedd gefnogi hyn trwy eu system WGU Connect.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.14</b>	<b>Adroddiad y Cadeirydd</b>	
	<p><b>Adroddwyd:</b> Adroddodd y Cadeirydd am ddigwyddiadau yr oedd hi wedi bod ynddynt ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Roedd y Tasglu Arweiniad Addysg Uwch ar encil yn awr. Dyddiad cyfarfod nesaf Cadeiryddion Prifysgolion Cymru yw 8 Hydref a byddai'r Cadeirydd yn bresennol yn y Sesiwn Gloi ar 14 Hydref yn rhithiol hefyd.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.15</b>	<b>Adroddiad y Bwrdd Academaidd</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad a chofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Medi 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried y chwech datganiad blynyddol sicrwydd ansawdd a safonau ac wedi adolygu'r dystiolaeth i gynorthwyo'r Bwrdd i benderfynu ar ei ymateb i'r datganiadau i CCAUC. Byddai'r dystiolaeth yn cael ei darparu i'r panel Craffu Ansawdd a Safonau ar 21 Hydref ac yna i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad a'r cofnodion.</p>	
<b>21.16</b>	<b>Adroddiad Risgiau Corfforaethol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Crynodeb risgiau corfforaethol a'r Map Gwres Risgiau, Medi 2021</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Adroddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategaeth a Gweinyddiaeth Myfyrwyr fod y gofrestr risgiau corfforaethol a'r camau gweithredu lliniaur wedi bod trwy adolygiad arwyddocaol yn ystod yr haf, gan ystyried sylwadau'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin. Nid oedd y risg Amgylchedd Dysgu Ffisegol wedi'i adolygu hyd yma. Roedd sgorau pedwar risg wedi gostwng, yn cynnwys yr un ynghylch cynaliadwyedd ariannol, a hysbyswyd gan dystiolaeth y Brifysgol o berfformiad ariannol da cyson a gwella'r cydnheredd ariannol.</p> <p>Byddai datblygiadau yn yr amgylchedd allanol yn parhau i effeithio ar y Brifysgol a byddent yn cael eu monitro fel rhan o'r gofrestr risgiau.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.17</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Bwrdd</b>	
	<b>Derbyniwyd:</b>	

	<p>Adroddiad Blynyddol y Bwrdd 2020/21.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Gofynnodd y Bwrdd am ychwanegu eitem at ei gynllun gwaith ar gyfer 2021/22:</p> <p>“Parhau i fonitro'r amgylchedd gwleidyddol a strategaethau allanol wrth iddynt effeithio ar y Brifysgol; ac ystyried ymatebion y Brifysgol yn unol â hynny, yn cynnwys y rhai yn Lloegr a'r rhai sy'n gysylltiedig â diwygiadau strwythurol yn deillio o Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).”</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> CYMERADWYO'R adroddiad fel crynodeb cywir o waith y Bwrdd yn ystod 2020/21.</p> <p>CYMERADWYO'R cynllun gwaith ar gyfer 2021/22, yn ddarostyngedig i gynnwys yr ychwanegiad a nodwyd uchod.</p> <p>CYTUNO i rannu'r adroddiad â'r Bwrdd Academaidd, CCAUC a'r holl staff trwy gyfrwng mewnwyd WGYou.</p>	
<b>21.18</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Rheoli</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Rheoli 2020/21.</p> <p><b>Penderfynwyd</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.19</b>	<b>Cofrestr Buddiannau</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Cofrestr Buddiannau'r Llywodraethwyr.</p> <p><b>Penderfynwyd</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.20</b>	<b>Sêl y Brifysgol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad ar roi Sêl y Brifysgol ar dri phrosiect datblygiad cyfalaf, un cytundeb ar gyfer darpariaeth system CRIS a throsglwyddiad rhannol yn gysylltiedig â gwaredu'r Chwarter Gogleddol i Edwards Homes.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Gofynnodd y Clerc am lofnodi penderfyniad ysgrifenedig yn awdurdodi dau o ymddiriedolwyr yr elusen i weithredu dogfennau cyfreithiol ar ran yr holl ymddiriedolwyr dan Adran 333 Deddf Elusennau 2011.</p> <p><b>Penderfynwyd</b> NODI'R adroddiad.</p> <p>CYMERADWYO llofnodi'r penderfyniad yr Ymddiriedolwyr.</p>	
<b>21.21</b>	<b>Pwyllgorau'r Bwrdd</b>	
	<b>21.21.01 Y Pwyllgor Archwilio</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021.</p>	



	NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau 17 Medi wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd.	
	<b>21.21.02 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2021.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b></p> <p>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2021.</p> <p>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau 10 Medi wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd.</p>	
	<b>21.21.04 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2021.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch gwaith trwsio'r to yn Nhŷ Henblas, lleoliad Xplore! Cadarnhawyd fod y gwaith trwsio'n ychwanegol i'r gwaith a gynhwyswyd yn y gyllideb yn wreiddiol ac a oedd wedi'i gwblhau. Roeddynt yn aros am gostau'r gwaith trwsio diweddaraf.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2021.</p> <p>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau 24 Medi wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd.</p>	

Diwedd

**Confidential** Minutes of the meeting of the Board of Governors of Glyndwr University held on **Friday 1<sup>st</sup> October 2021** at 9.00am by video conference

<b>21.22</b>	<b>Minutes</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Confidential minutes of the meetings held on 15<sup>th</sup> and 16<sup>th</sup> July 2021.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> To accept the minutes as a true and accurate record.</p>	
<b>21.23</b>	<b>Matters arising</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> A matters arising report.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>21.24</b>	<b>Student Numbers</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Student number reports 20/21 as 23<sup>rd</sup> September 2021</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Since the papers had been issued firm accepts had increased to 682. Applications were still being received and projections were that the final number would be around 700 full time undergraduate students. This was below previous years and below target. The University had been negatively affected by the high teacher assessed A level grades which had affected recruitment to many post-92 institutions. Higher tariff institutions had accepted significantly higher numbers of new students than normal.</p> <p>Student numbers for other cohorts of students including part time undergraduate, part-time postgraduate, international, WGU online, UK and TNE partners were still to be finalised but were looking positive.</p> <p>As highlighted at the strategy day market research had been undertake as part of the portfolio review project looking at different ways to present the programme offering and address some of the programme and module viability issues.</p> <p>The financial implications of the lower than target full time undergraduate students were being reviewed by VCET in terms of resources. The Quarter 1 Financial Management Report to the end of October would incorporate how the shortfall would be managed to return a surplus outturn at the end of 2021/22.</p> <p>Members explored the potential for a return to normal recruitment patterns for 2022/23 and it was confirmed that this would be manageable within current resources.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	

End